

Geirfa ar gyfer y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)

Papur Briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil:

Adbrynu hawliau (Redemption of rights) - hawl dyledwr i adennill ei eiddo os yw'n gallu sicrhau'r arian i ad-dalu'r ddyled.

Adlesu (Leaseback) - pan fo gwerthwr eiddo yn rhentu'r eiddo hwnnw yn ôl ar les.

Amrywio les (Variation of lease) - efallai y bydd angen amrywio les am resymau penodol e.e. ymestyn les.

Annedd (Dwelling) - tŷ, fflat neu fan preswyllo arall.

Ased sylfaenol (Underlying asset) - y sicrwydd, yr offeryn ariannol neu'r nwyddau a gynrychiolir mewn deilliad. Eiddo a ddelir yn benodol o fewn bond cyllid amgen yw'r ased.

Aseinio hawliau (Assignment of rights) - trosglwyddo hawliau'r trosglwyddwr i'r trosglwyddai mewn trafodiad cyn-gwblhau.

Aseinio les (Assignment of lease) - pan fo'r trosglwyddwr yn aseinio ei hawliau i drosglwyddai ddefnyddio'r eiddo sydd ar les.

Awdurdod Cyllid Cymru (Welsh Revenue Authority (WRA)) - y corff newydd a sefydlwyd i gasglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru.

Band cyfradd sero (Zero rate band) - band treth sydd â chyfradd dreth o o y cant.

Bandiau treth (Tax bands) - system lle rhoddir y gydnabyddiaeth yng nghyd-destun graddfa sy'n seiliedig ar werth er mwyn cyfrifo'r dreth sy'n ddyledus ar gyfer trafodiad.

Blwydd-daliad (Annuity) - incwm sefydlog a delir yn flynyddol dros gyfnod penodol o amser, fel arfer am oes neu am byth.

Bondiau buddsoddi cyllid arall (Alternative finance investment bonds) - math o gyllid sy'n gyfystyr â bond sy'n cydymffurfio â'r gwaharddiad, o dan gyfraith Sharia, ar dalu neu gael llog.

Breinio (Enfranchisement) - dull sy'n galluogi tenant/tenantiaid eiddo sydd ar brydles hirdymor (mwy na 21 mlynedd) i gaffael rhydd-ddeiliadaeth yr eiddo hwnnw.

Buddiant esempt (Exempt interest) - trafodiadau tir ac eiddo sydd wedi'u heithrio'n benodol o daliadau'r dreth stamp e.e. trwyddedau, buddiannau sicrhad ac ati.

Buddiant sicrhad (Security interest) - buddiant neu hawl mewn rhai asedau y gellir eu hadfeddiannu os bydd y benthyciwr yn rhoi'r gorau i ad-dalu'r benthyciad.

Buddiant trethadwy (Chargeable interest) - ystâd, buddiant, hawl neu bŵer mewn tir neu dros dir yng Nghymru.

Cefnffordd (Trunk road) - ffordd a gynhelir gan gorff llywodraethol cenedlaethol yn wahanol i'r rhan fwyaf o ffyrdd, sy'n cael eu cynnal gan Awdurdod Priffyrdd Lleol.

Contract (Contract) - cytundeb rhwymol neu ddilys gyfreithiol rhwng dau barti.

Corff corfforaethol (Body corporate) - endid cyfreithiol sydd wedi'i gofrestru â Thŷ'r Cwmnïau.

Cwmni (Company) - unrhyw gymdeithas gorfforedig neu anghorfforedig ac eithrio partneriaeth.

Cwmni buddsoddi penagored (Open ended Investment company (OEIC)) - math o gwmni neu gronfa, fel ymddiriedolaeth uned, sydd wedi'i strwythuro i ganiatáu i unigolion gronni arian i'w fuddsoddi mewn gwahanol asedau fel eiddo a chyfranddaliadau.

Cwmni cyd-fenter (Joint venture company) - endid busnes a grëwyd gan ddau barti neu ragor, a nodweddir fel arfer gan ranberchenogaeth, ffurflenni a risgiau a rennir, a llywodraethu ar y cyd.

Cwmni cysylltiedig (Connected company) - pan fo cwmni mewn trafodiad tir yn gysylltiedig (o ran rheolaeth) â phrynwr neu werthwr yr eiddo.

Cwmni grŵp (Group company) - aelod o'r un grŵp o gwmnïau, a ddiffinnir mewn amodau perchnogaeth penodol fel gwerthwr neu brynwr o eiddo neu dir.

Cydnabyddiaeth ansicr (Uncertain consideration) - pan fo'r gydnabyddiaeth yn dibynnu ar ddigwyddiad ansicr yn y dyfodol e.e. taliadau sy'n seiliedig ar drosiant busnes.

Cydnabyddiaeth ddibynol (Contingent consideration) - cydnabyddiaeth a delir gan y trosglwyddai dim ond os bydd rhywbeth penodol yn digwydd yn y dyfodol e.e. bydd datblygwr yn talu swm ychwanegol os yw'n cael caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tir.

Cydnabyddiaeth drethadwy (Chargeable consideration) - y swm a roddir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol am y caffaeliad y gallai treth dir y dreth stamp fod yn daladwy arno.

Cydnabyddiaeth heb ei chanfod (Unascertained consideration) - pan fo'r gydnabyddiaeth yn dibynnu ar rywbeth nad yw wedi'i benderfynu eto, e.e. nifer yr anheddau y gellir eu hadeiladu.

Cydnabyddiaeth ohiriedig (Postponed consideration) - pan fo'r prynwr yn talu rhan o'r pris y cytunwyd arno ar adeg y trosglwyddiad ac yn talu'r gweddill maes o law.

Cydsyniad (Assent) - y dull cyfreithiol o drosglwyddo eiddo i fuddiolwr ar ôl i berson farw.

Cyflawni'n sylweddol (Substantial performance) - pan fo'r rhan fwyaf o'r pris prynu yn cael ei dalu (mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi nodi mai go y cant fydd hynny fel arfer), neu pan fo gan y prynwr yr hawl i feddiannu'r eiddo neu pan fo taliad cyntaf y rhent yn cael ei wneud.

Cyfnewidiadau (Exchanges) - pan fo dau barti yn cytuno i gyfnewid tir fel rhan o'r trafodiad.

Cyfradd disgownt amser (Temporal discount rate) - cyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio cyfres o lifoedd arian yn y dyfodol i'w gwerth presennol er mwyn cyfrifo'r gwerth net presennol.

Cyfraddau treth (Tax rates) - y rhwymedigaeth dreth fel canran o werth trethadwy eiddo neu dir.

Cyfranddaliadau (Shares) - gwarannau a ddyroddir gan gwmni i fesur perchnogaeth.

Cyfranddaliadau anatbrynadwy (Non-redeemable shares) - math o gyfranddaliad na ellir ei atbrynu yn ystod oes cwmni. Bydd swm y cyfranddaliad yn cael ei dalu pan fo'r cwmni'n cael ei ddiddymu.

Cyfunddaliad (Commonhold) - system ar gyfer trefnu bod uned mewn adeilad aml-ddeiliadaeth (e.e. fflat) yn rhydd-ddaliadol, ond gan rannu cyfrifoldeb am ardaloedd cyffredin a gwasanaethau.

Cyllid eiddo arall (Alternative property finance) - dull o gyllido'r broses o brynu eiddo sy'n osgoi'r taliadau llog, a waherddir o dan gyfraith Sharia, ond lle darperir y swm priodol sy'n daladwy fel cyfran o elw neu gydnabyddiaeth ychwanegol.

Cymdeithas adeiladu (Building Society) - sefydliad ariannol cydfuddiannol sy'n darparu gwasanaethau bancio a gwasanaethau ariannol eraill i'w aelodau, y mae ganddynt hawliau penodol i bleidleisio a chael gwybodaeth a siarad mewn cyfarfodydd.

Cymdeithas budd cymunedol (Community benefit society) - cymdeithas a gofrestrwyd â'r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol ac a grewyd ag amcanion cymdeithasol gyda'r bwriad o gyflawni ei gwaith er budd y gymuned gan rhoi'r elw yn ôl i'r gymuned.

Cymdeithas gydweithredol (Co-operative) - cwmni sy'n eiddo i'r bobl sy'n defnyddio ei gynnyrch, ei wasanaethau neu ei gyflenwadau, ac a weithredir gan y bobl hynny.

Cymdeithas gyfeillgar (Friendly Society) - sefydliad ariannol sy'n eiddo i'w aelodau sy'n talu tollau rheolaidd neu symiau eraill yn gyfnewid am bensiynau, cynilion, budd-daliadau salwch, ac ati.

Cymdeithasau cydfuddiannol (Mutual Society) - sefydliad sy'n eiddo i'w aelodau. Caiff elw ei ailfuddsoddi er mwyn helpu i wella gwasanaethau'r cymdeithasau hyn fel arfer.

Cynllun ymddiriedolaeth unedau (Unit trust scheme) - dulliau o fuddsoddi ar y cyd a ddefnyddir i gadw asedau, gan gynnwys tir, sy'n caniatáu i fuddsoddwyr sydd ag amcanion buddsoddi tebyg i gyfuno eu cyllid.

Cynlluniau datgelu osgoi treth (Disclosure of Tax Avoidance Schemes (DOTAS)) - cynlluniau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n hyrwyddo cynlluniau osgoi treth ddatgelu eu prif elfennau o fewn cyfnod byr iawn.

Cytundeb ar gyfer les (Agreement for lease) - cytundeb rhwng landlord a thenant arfaethedig i roi a/neu dderbyn les yn y dyfodol.

Cytundeb opsiwn (Option agreement) - Hawl i ddeiliad yr opsiwn brynu eiddo oddi wrth y perchennog ar bwynt penodol yn y dyfodol, e.e. pan roddir caniatâd cynllunio.

Dadgyfuddiannu (Demutualisation) - y broses o droi unrhyw sefydliad sy'n eiddo i'w aelodau yn gwmni sy'n eiddo i gyfranddalwyr.

Darnddosbarthu (Partition) - proses gyfreithiol lle y mae cydberchnogion eiddo lluosog yn rhannu perchnogaeth yr eiddo hyn.

Datganiad (Declaration) - datganiad sy'n cadarnhau bod y wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen dreth yn gywir ac yn gyflawn.

Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (Tax Collection and Management Act 2016 (TCMA)) - Deddf sy'n darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol, ac yn sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).

Deddfiad (Enactment) - pasio darn o ddeddfwriaeth yn gyffredinol ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol.

Deiliad uned (Unit holder) - cyfranogwr mewn cynllun ymddiriedolaeth unedau.

Diben elusennol (Charitable purpose) - diben sydd o fewn un o'r disgrifiadau a amlinellir yn Neddf Elusennau 2011 ac sydd er budd y cyhoedd.

Dyddiad ailystyried (Reconsideration date) - y dyddiad y daw cyfanswm y rhent a dalwyd ar les, neu'r cyfanswm sy'n daladwy ar les, yn hysbys neu ddiwedd pum mlynedd gyntaf y cyfnod rhentu. Mae hyn yn berthnasol i gydnabyddiaeth ansicr, adolygiadau rhent ac ati.

Dyddiad perthnasol (Relevant date) - dyddiad y digwyddiad perthnasol e.e. trafodiad hysbysadwy, terfynu les ac ati.

Dyled sicredig (Secured debt) - dyled a sicrhawyd drwy warant gyfochrog er mwyn lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â benthyca.

Eiddo amhreswyl (Non-residential property) - unrhyw eiddo nad yw'n cael ei ddsbarthu fel eiddo preswyl.

Eiddo preswyl (Residential property) - adeilad neu dir sy'n gysylltiedig ag adeilad a ddefnyddir fel tŷ, fflat, neu breswylfan arall (ac eithrio eiddo penodol fel carchar), adeilad neu dir sy'n addas ar gyfer y math hwnnw o ddefnydd, neu'n sy'n cael ei ddatblygu neu ei addasu ar gyfer defnydd o'r fath.

Elusen (Charity) - endid sydd ag amcanion elusennol, fel sefydliad dielw sy'n defnyddio ei holl adnoddau i gefnogi'r rhai sydd mewn angen.

Ffurflen dreth (Tax return) - dogfen y mae'n rhaid ei chyflwyno sy'n datgan rhwymedigaeth ar gyfer treth.

Gwarediad testamentaidd (Testamentary disposition) - trosglwyddiad eiddo sy'n dod i rym pan fo'r person sy'n gwneud y gwarediad yn marw.

Gweithrediadau adeiladu (Construction Operations) - gweithrediadau a ddiffinnir fel adeiladu, addasu, atgyweirio, cynnal a chadw, estyn, dymchwel neu ddatgymalu eiddo neu dir.

Gwerth marchnadol (Market value) - y pris damcaniaethol a ddisgwylir mewn gwerthiant rhwng prynwr parod a gwerthwr parod ar y farchnad agored.

Gwerth net presennol (Net present value (NPV)) - mesur o werth presennol y rhent a delir yn y dyfodol gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt benodol. Defnyddir y mesur hwn i gyfrifo'r gydnabyddiaeth drethadwy sy'n gymwys i werth rhenti les.

Hawl i brynu (Right to buy) - cynllun lle y gall tenantiaid tai cymdeithasol brynu eu cartrefi am bris sy'n rhatach na'u gwerth llawn ar y farchnad.

Hawliau ar y cyd (Collective rights) - hawliau sy'n ymwneud yn benodol â grŵp o bobl fel tenantiaid fflatiau o fewn eiddo.

Hawliau rhagbrynu (Pre-emption rights) - hawl i brynu â blaenoriaeth dros unrhyw brynwr arall.

Hunanasesiad (Self-assessment) - y broses o gyfrifo eich rhwymedigaeth drethadwy eich hun.

Hysbysiad gwrthweithio (Counteraction notice) - hysbysiad a gyhoeddir pan ystyrir bod trefniant o ran treth yn rhoi mantais drethiannol, fel y nodir yn y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi.

Indemniad (Indemnity) - rhwymedigaeth i dalu am golledion neu iawndal penodedig.

Is-werthiant (Sub-sale) - pan fo trosglwyddwr yn ymrwymo i gytundeb â pherchennog i brynu eiddo ac yna'n gwerthu'r eiddo i drosglwyddai cyn cwblhau'r broses.

Landlord cymdeithasol (Social landlord) - darparwyr cofrestredig sy'n berchen ar dai cymdeithasol ac yn eu rheoli. Sefydliadau anfasnachol yw'r rhain fel arfer, fel awdurdodau lleol neu gymdeithasau tai.

Les (Lease) - buddiant neu hawl o ran tir neu eiddo a roddir gan un parti i barti arall am gyfnod penodedig, yn gyfnewid am daliad cyfnodol fel arfer.

Les gymysg (Mixed lease) - les ar eiddo sy'n cynnwys elfennau preswyl ac amhreswyl, e.e. siop sydd â fflat uwchben iddi.

Les ranberchnogaeth (Shared ownership lease) - gall lesddeiliad brynu cyfran o eiddo lesddaliadol a thalu rhent ar y rhan o'r eiddo sydd yn nwylo'r landlord cymdeithasol. Fel arfer, bydd gan lesddeiliaid yr hawl i brynu cyfranddaliadau ychwanegol hyd nes y byddant yn berchen ar hyd at 100 y cant o'r eiddo.

Les rhent marchnadol (Market rent lease) - les ar sail y gyfradd arferol ar gyfer eiddo ar rent mewn ardal benodol.

Les sy'n gorgyffwrdd (Overlapping lease) - y cyfnod pan fo gorgyffwrdd rhwng diwedd un les a dechrau les arall.

Llog taliadau (Payment interest) - mae'n rhaid talu treth o fewn cyfnod penodedig i Awdurdod Cyllid Cymru. I ddechrau, disgwylir i hynny ddigwydd o fewn 30 diwrnod i'r dyddiad y mae'r trafodiad yn cael effaith.

Mantais drethiannol (Tax advantage) - talu llai o dreth o ganlyniad i ryddhad, neu o ganlyniad i osgoi, ad-dalu neu ohirio taliad.

Masnachwr eiddo (Property trader) - busnes sy'n prynu ac yn gwerthu anheddau.

Offeryn Statudol (Statutory instrument) - deddfwriaeth sy'n caniatáu i ddarpariaethau Deddf Cynulliad ddod i rym neu gael eu haddasu heb fod angen pasio Deddf newydd. Cyfeirir at Offerynau Statudol fel is-ddeddfwriaeth neu ddeddfwriaeth ddirprwyedig.

Partner cyfatebol (Corresponding partner) - partner sy'n gysylltiedig o ran unigolion a chyrrff penodol â pherchennog perthnasol at y diben o drosglwyddo buddiant trethadwy o bartneriaeth i bartner presennol neu flaenorol.

Partner cyfrifol (Responsible partner) - partner sy'n atebol am dalu treth ar drafodiadau tir yr ymrwymir iddynt ar ran y bartneriaeth.

Partneriaeth (Partnership) - trefniant cyfreithiol pan fo dau neu ragor o bobl (e.e. unigolion, cwmnïau, ac ati) yn rhannu'r elw a'r rhwymedigaethau a ddaw yn sgil menter busnes.

Partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig (Limited liability partnership (LLP)) - math o bartneriaeth lle y mae partner yn atebol am y swm o arian a fuddsoddwyd ganddo yn y busnes yn unig ac nid yw'n atebol am ddyledion ni all y busnes eu talu.

Partneriaeth buddsoddi mewn eiddo (Property Investment Partnerships) - partneriaeth lle ei hunig weithgaredd neu ei phrif weithgaredd yw buddsoddi neu ddelio mewn eiddo a thir.

Partneriaid cynrychiadol (Representative partner) - partner a enwebwyd gan fwyafrif sy'n gweithredu fel cynrychiolydd ar gyfer y bartneriaeth mewn trafodiad buddiant trethadwy.

Perchennog perthnasol (Relevant owner) - y person sydd â hawl i gyfran o fuddiant trethadwy partneriaeth a oedd yn bartner, neu'n gysylltiedig â phartner, ar adeg y caffaeliad.

Perchnogiad (Appropriation) - trosglwyddo ased i fuddiolwr oherwydd cymynrodd.

Premiwm gwrthol (Reverse Premium) - taliad i rywun yn gyfnewid am dderbyn trosglwyddiad buddiant tir e.e. taliad a roddir gan landlord i denant sy'n cytuno i ildio les.

Prif fuddiant (Major interest) - term a ddefnyddir ar gyfer buddiant rhydd-ddaliadol neu lesddaliadol.

Prif Gofrestrydd Tir (Chief Land Register) - Prif Weithredwr y Gofrestrfa Tir (adran anllywodraethol), sy'n gyfrifol am gadw cofrestrau tir yng Nghymru a Lloegr ac sydd â'r holl bwerau, cyfrifoldebau a dyletswyddau a roddir ac a osodir drwy'r gyfraith mewn perthynas â hynny.

Prynu gorfodol (Compulsary purchase) - prynu tir neu eiddo preifat i'w ddefnyddio'n gyhoeddus, a hynny drwy ddull a gaiff ei orfodi'n swyddogol.

Prynwyr ar y cyd (Joint buyers) - pan fo dau barti neu ragor yn caffael buddiant yn yr un tir neu eiddo.

Rhent amrywiol neu ansicr (Variable / uncertain rent) - pan fo taliad yn amrywio yn unol â darpariaethau les, e.e. adolygiadau rhent, trosiant ac ati.

Rhent i forgais (Rent to mortgage) - cynllun ar gyfer tenantiaid sy'n methu â fforddio pris eu heiddo cyngor, sy'n rhoi'r cyfle iddynt dalu am ran o'r cartref i ddechrau, gan rannu perchnogaeth â'r landlord tan fod y pris llawn yn cael ei dalu.

Rhent i ranberchnogaeth (Rent to shared ownership) - cynllun lle y mae landlord cymdeithasol yn rhoi tenantiaeth fyrddaliadol i berson neu bersonau a bod un ohonynt, ar ôl hynny, yn dod yn brynwr o dan drefniant rhanberchnogaeth.

Rhent perthnasol (Relevant rent) - y rhent blynyddol mewn perthynas â'r trafodiad sy'n cael ei brynu neu'r swm cyfartalog blynyddol o rent dros gyfnod y brydles.

Rheol isafswm y gydnabyddiaeth (Minimum consideration rule) - rheol sy'n gymwys mewn amgylchiadau penodol pan fo'r trosglwyddai naill ai'n gysylltiedig â'r trosglwyddwr, neu pan nad yw'n gweithredu ar hyd braich i'r trosglwyddwr, er mwyn sicrhau y codir treth ar werth llawn yr eiddo neu dir.

Rheolau a dargedwyd yn erbyn osgoi treth (Targeted Anti-Avoidance Rules (TAAR)) - rheolau sy'n gymwys i drethi penodol neu feysydd penodol o ddeddfwriaeth. Fe'i cynlluniwyd i gau bylchau penodol o ran treth neu i leihau cwmpas rhyddhadau i'r rhai sy'n bodloni dibenion penodol.

Rhoi les (Grant of lease) - pan fo perchennog cyfreithiol eiddo rhydd-ddaliadol yn creu les i denant.

Rhwymedigaeth ar gyfer treth (Tax liability) - y swm sy'n ddyledus yn gyfreithiol i awdurdod treth o ganlyniad i ddigwyddiad trethadwy.

Rhwymedigaethau cynllunio (Planning obligations) - cytundeb cyfreithiol rhwng yr awdurdod cynllunio lleol a'r ymgeisydd sy'n ceisio caniatâd cynllunio i wneud yn siŵr bod yr ymrwymadau sydd eu hangen i wneud datblygiad yn dderbyniol yn cael eu sicrhau.

Rhyddfrait (Franchise) - grant gan y Goron, fel yr hawl i gynnal marchnad neu ffair, neu'r hawl i gymryd tollau.

Rhyddhad caffael (Acquisition relief) - mae rhyddhad caffael yn gymwys pan fydd un cwmni'n caffael ymgymeriad cwmni arall, naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, yn gyfnewid am ddyroddi cyfranddaliadau i'r cwmni targed neu i'w gyfranddalwyr.

Rhyddhad grŵp (Group relief) - mae'r rhyddhad hwn ar gael pan fydd trafodiadau tir rhwng aelodau o grŵp corfforaethol.

Rhyddhad treth (Tax relief) - gostyngiad yn y swm o dreth sy'n ddyledus gan berson (unigolyn neu endid busnes).

Ryddhad atgyfansoddi (Reconstruction relief) - rhyddhad sy'n gymwys pan fo tir ac adeiladau yn cael eu trosglwyddo rhwng cwmnïau ac nid oes unrhyw newid o ran perchnogaeth yn y pen draw. E.e. pan fo cwmni yn penderfynu rhannu busnes presennol yn ddau fusnes.

Swm y cyfrannau is (Sum of the lower proportions) - defnyddir y cyfrifiad hwn i bennu cyfran y gydnabyddiaeth drethadwy nad yw'n agored i dreth pan fo buddiant yn cael ei drosglwyddo i bartneriaeth neu o bartneriaeth gan y perchennog perthnasol.

Tai cymdeithasol (Social housing) - tai a ddarperir i bobl ar incwm isel, neu bobl sydd ag anghenion penodol, gan asiantaethau llywodraethol neu sefydliadau dielw.

Taliad gohiriedig (Deferred payment) - mae'n ofynnol i'r prynwr i gynnwys taliadau sy'n ddyledus ar ôl i'r trafodiad ddigwydd. Mae hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth ddibynnol a chydnabyddiaeth ansicr e.e. cael caniatâd cynllunio.

Testun (Subject-matter) - y buddiant trethadwy sydd wedi'i gaffael.

Tir (Land) - adeiladau a strwythurau, a thir sydd wedi'i orchuddio gan ddŵr.

Trafodiad cyn-gwblhau (Pre-completion transaction) - is-werthiant neu drafodiad aseinio hawliau sy'n trosglwyddo tir neu eiddo yn rhannol neu'n gyfan gwbl rhwng trosglwyddwr a throsglwyddai.

Trafodiad cysylltiol (Linked transaction) - pan fo dau neu ragor o drafodion tir yn ymwneud â'r un prynwr a gwerthwr neu bobl sy'n gysylltiedig â hwy.

Trafodiad tir (Land transaction) - trafodiad sy'n digwydd pan fydd rhywun yn caffael neu'n cynyddu buddiant trethadwy mewn tir neu eiddo.

Trafodiad tir tybiannol (Notional land transaction) - trafodiad at ddibenion treth sy'n codi yn sgil trafodiad cyn-gwblhau sy'n caniatáu i drafodion penodol gael eu hanwybyddu.

Trafodiadau hysbysadwy (Notifiable transactions) - trafodion lle y mae'n ofynnol i'r prynwr wneud datgeliad i'r awdurdod treth ar ffurf ffurflen dreth.

Trafodiadau olynol (Successive transactions) - pan fydd un neu ragor o drafodiadau cysylltiedig yn dilyn trafodiad e.e. trosglwyddiadau tir ac eiddo rhwng cwmnïau grŵp.

Trefniadau artiffisial i osgoi trethi (Artificial tax avoidance) - pan fo dod i drefniant o ran treth yn creu mantais drethiannol y gellid ystyried nad yw'n weithred resymol o dan y ddeddfwriaeth dreth berthnasol.

Trefniant treth (Tax arrangement) - mae hyn yn cynnwys unrhyw gynllun, drafodiad neu gyfres o drafodion.

Treth enillion cyfalaf (Capital gains tax) - treth ar yr elw wrth waredu asedau trethadwy.

Treth etifeddiant (Inheritance tax) - treth a godir ar rai trosglwyddiadau o werth a wneir am ddim gan unigolyn, ymddiriedolaeth neu gwmni.

Treth trafodiadau tir (Land transaction tax) - y dreth ddatganoledig sy'n cymryd lle treth dir y dreth stamp (sef y drefn flaenorol ar gyfer y DU) yng Nghymru.

Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) (Land Transaction Tax and Anti-Avoidance of Devolved Taxes (LTTA)) - y Bil cyntaf i'r Cynulliad ymdrin ag ef sy'n ymwneud yn benodol â threth. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer cyflwyno Treth Trafodiadau Tir yn lle treth dir y dreth stamp yn y DU a gweithredu rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi yng Nghymru.

Trinity House (Trinity House) - elusen sydd â dyletswydd statudol fel yr Awdurdod Goleudai Cyffredinol.

Trosglwyddai (Transferee) - isbrynwr sy'n prynu eiddo neu dir oddi wrth y trosglwyddwr fel rhan o drafodiad cyn-gwblhau.

Trosglwyddiad nad yw'n esempt (Non-exempt transfer) - trosglwyddiad sy'n drethadwy o dan y trefniadau treth perthnasol.

Trosglwyddiadau annibynnol (Free-standing transfers) - trosglwyddiad cyn-gwblhau ac eithrio aseinio hawliau, er enghraifft, iswerthiant.

Trosglwyddo hawliau (Transfer of rights) - pan fo trosglwyddwr yn trosglwyddo i drosglwyddai ran o dir neu eiddo, neu dir neu eiddo yn ei gyfanrwydd, drwy aseinio hawliau neu iswerthiant, a hynny o dan gontract.

Trosglwyddwr (Transferor) - prynwr sy'n prynu eiddo neu dir oddi wrth y perchennog presennol fel rhan o drafodiad cyn-gwblhau.

Trothwy cyfradd sero (Zero rate threshold) - y trothwy lle y daw trafodiad yn fuddiant trethadwy.

Trydydd parti (Third party) - person neu grŵp a allai fod yn ymwneud yn anuniongyrchol â thrafodiad, ond nad yw'n un o'r prif bartïon.

Undeb credyd (Credit union) - cymdeithas gydweithredol a weithredir ar sail ddielw gan ei haelodau, sef adneuwyr, benthycwyr, a chyfranddalwyr.

Y dreth sydd i'w chodi (Tax chargeable) - y swm o dreth sydd i'w thalu gan brynwr.

Y dyddiad y mae [XXX] yn cael effaith (Effective date) - yn fras, y dyddiad y mae'r rhwymedigaeth yn codi, sef dyddiad cwblhau'r trosglwyddiad fel arfer, ond gall fod yn gynharach os caiff y trafodiad ei gyflawni'n sylweddol.

Y mynegai prisiau defnyddwyr (Consumer prices index) - y dull swyddogol o gyfrifo chwyddiant yn y DU.

Y rheol gyffredinol yn erbyn camddefnyddio'r gyfundrefn dreth (General Anti-Abuse Rule (GAAR)) - deddfwriaeth Llywodraeth y DU i reoli'r risg o osgoi treth drwy wrthweithiad, ar yr amod bod y gwrthweithiad wedi'i dderbyn gan Banel Adolygu'r rheol.

Y rheol gyffredinol yn erbyn osgoi trethi (General Anti-Avoidance Rule (GAAR)) - rheol statudol sy'n atal trethdalwyr rhag manteisio ar drefniant yr ystyrir ei fod yn groes i ddiben y ddeddfwriaeth.

Ymddiriedolaeth (Trust) - bydd crëwr ymddiriedolaeth yn rhoi'r hawl i ymddiriedolwr gadw teitl eiddo neu asedau ar ran buddiolwr yn amodol ar delerau'r ymddiriedolaeth.

Ymddiriedolaeth noeth (Bare trust) - math sylfaenol o ymddiriedolaeth a reolir gan ymddiriedolwr lle y mae gan y buddiolwr yr hawl i asedau, fel eiddo, a ddelir gan yr ymddiriedolaeth pan ddaw'r buddiolwr i fod â hawl i'r asedau hynny.

Ymddiriedolaeth ranberchnogaeth (Shared ownership trust) - mae ymddiriedolaeth o'r fath yn dilyn yr un egwyddorion â les ranberchnogaeth, ond mae'n berthnasol i gyfunddeiliadaethau yn unig.

Ymddiriedolwr (Trustee) - unigolyn y rhoddir iddo reolaeth dros eiddo mewn ymddiriedolaeth, neu bwerau i weinyddu eiddo o'r fath, y mae ganddo rwymedigaeth gyfreithiol i'w weinyddu ar gyfer y dibenion a bennwyd yn unig.

Yr holl gydnabyddiaeth (Total consideration) - cyfanswm y gydnabyddiaeth drethadwy ar gyfer trafodion cysylltiedig.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Christian Tipples (Christian.tipples@cynulliad.cymru) yn y Gwasanaeth Ymchwil.